## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:** 23 Ionawr 2025

**Teitl:** Strategaeth Ddigidol yn dilyn yr Ymgynghoriad

**Pwrpas yr adroddiad:**
Adolygu'r ymgynghoriad a'r diwygiadau strategaeth ddigidol cyn eu cyflwyno i'r Cyngor i'w mabwysiadu

**Er:** Penderfyniad

**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:**
Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Cefndir**
Rhwng 6 Mai a 9 Gorffennaf 2024, ymgynghorodd Cyngor Sir Ceredigion â thrigolion a rhanddeiliaid ar y Strategaeth Ddigidol ddrafft.

Cafwyd 29 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'r ymatebion hyn wedi'u pwyso a'u mesur. Mae nifer o'r sylwadau a wnaed wedi'u hymgorffori yn fersiwn derfynol y strategaeth.

Paratowyd dogfen sy'n nodi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'r prif ganfyddiadau ac yn sgil hyn, mae fersiwn ddiwygiedig o'r strategaeth wedi'i chreu.

**Y sefyllfa bresennol**
Cafodd y strategaeth ei hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2025 ac fe'i hargymhellwyd I'w chymeradwyo gan y Cyngor.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.** Do.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**
**Hirdymor:**
Strategaeth dros 6 blynedd yw hon sy'n cynnwys tri chynllun dwy flynedd a chylchoedd adolygu

**Cydweithio:**
Mae'r strategaeth yn galw am hyrwyddwyr digidol ym mhob gwasanaeth a chydweithio rhwng y partneriaid a'r asiantaethau.

**Cynnwys:**
Mae'r strategaeth yn galw am ymgysylltu â dinasyddion wrth ddylunio gwasanaethau gan gynnwys prosesau adborth ar gyfer pob gwasanaeth newydd. Dylai hyn sicrhau

bod amrywiaeth eang o leisiau yn cael eu clywed ym mhob agwedd ar y gwaith o ddylunio gwasanaethau fel y gellid gwella gwasanaethau i bawb.

**Atal:**
Bydd sicrhau gwell gwasanaethau yn lleihau'r baich ar bawb gan ryddhau adnoddau ar gyfer gwaith arall.

**Integreiddio:**
Mae'r strategaeth yn amlinellu'r cysylltiadau y gellid eu gwneud ag asiantaethau sy'n bartneriaid o ran cefnogi model rhagnodi cymdeithasol a chofnodion iechyd a gofal. Ceir llawer mwy o enghreifftiau o gefnogi gwaith integreiddio ar draws y sefydliadau ac o fewn y gwasanaethu yn fewnol er mwyn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig.

**Argymhelliad(au):**
Bod y Cyngor hwnnw'n cymeradwyo'r strategaeth

**Rhesymau dros y penderfyniad:**
Er mwyn gallu darparu datblygiad digidol cynaliadwy, hirdymor ar draws yr holl wasanaethau.

**Trosolwg a Chraffu:**
Cafodd y strategaeth ei hystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2025.

**Fframwaith Polisi:**
AMH

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:**
- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**
Arian wrth gefn wedi'i glustnodi gyda disgwyliadau i wella effeithlonrwydd a fydd yn gwrthbwyso'r costau yn y tymor hir.

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Dim

**Goblygiadau staffio:**
O fewn adnoddau staffio presennol

**Goblygiadau eiddo / asedau:**
Dim

**Risg(au):**
Methu â chyflawni effeithlonrwydd, gwella'r ddarpariaeth wasanaeth a datblygu seiber-wytnwch effeithiol.

**Pwerau Statudol:**
AMH

**Papurau Cefndir:**
Dim

**Atodiadau:**
- Strategaeth Ddigidol Cyngor Sir Ceredigion
- Asesiad Effaith Integredig
- Strategaeth Ddigidol Adroddiad Adborth Ymgynghori

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Alan Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol

**Swyddog Adrodd:**
Alan Morris

**Dyddiad:**
07/01/2025